Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Twyncarmel**

**Capel Twyncarmel**
**Heol Abertawe**
**Clwydyfagwyr**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1HW**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/5/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Twyncarmel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd sesiynol |
| Unigolyn cofrestredig | Linda Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Rhagfyr 2016 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Mae ganddynt lais cryf wrth iddynt gyfathrebu eu dymuniadau a'u hanghenion yn hyderus. Mae rhyngweithio'r plant yn dda. Mae’r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae gan y staff systemau datblygedig da ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dangos rhyngweithio da, meithringar a chadarnhaol gyda'r plant. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ac anghenion unigol y plant yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a sicr iawn i'r plant. Maent yn sicrhau bod ardaloedd addas a digon o le i’r plant chwarae a dysgu. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol.  Maent yn rheoli eu staff yn dda ac mae ethos gwaith hapus a chyfeillgar rhwng y staff. Mae hunanwerthuso’n bwrpasol ac yn effeithiol. Mae’r partneriaethau â’r rhieni yn dda.

## Llesiant

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Wrth iddynt gyrraedd, maent yn gwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni ac yn cymryd rhan yn gyflym mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae’r plant yn teimlo’n falch o’u cyflawniadau. Maent yn falch o ddangos y paentiadau y maent wedi’u gwneud i’r staff ac yn dangos yn llawn cyffro eu bod wedi gwneud tŵr uchel o flociau yn dweud *“Edrychwch!! Mor fawr!!!”* Mae’r plant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth gan y staff. Maent yn gwenu pan fydd y staff yn eu canmol am adnabod eu henwau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae gan y plant gysylltiadau agos o anwyldeb â'r staff ac maent yn ffurfio perthynas dda â nhw. Maent yn cael eu cysuro gan y staff pan fyddant yn cwympo ac maent yn rhannu eu teimladau â’r staff am eu hoff bethau a'u cas bethau yn hyderus.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hanghenion yn naturiol. Dewisodd y plant chwarae yn y meysydd o'u dewis personol, megis paentio, chwarae rôl, TGCh, edrych ar lyfrau a chwarae dŵr dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn rhannu eu safbwyntiau a'u barn yn rhwydd. Er enghraifft, maent yn dweud wrth y staff pa fwydydd y maent eisiau eu bwyta a'r rhai nad ydynt eisiau eu bwyta, sy'n cael ei barchu gan staff.

Mae rhyngweithio'r plant yn dda. Maent yn cydweithio’n dda ac mae ganddynt ddiddordeb gweithredol yn y gweithgareddau a'r adnoddau a gynigir iddynt. Maent yn rhannu bwyd, offer coginio a sosbenni smalio yn hapus wrth iddynt chwarae yn y gornel chwarae rôl. Mae'r plant yn dangos parch at adnoddau ac yn dilyn rheolau'n dda. Er enghraifft, maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y staff pan fyddant yn dweud wrth y plant am fod yn ofalus wrth fynd i lawr y grisiau i'r ardal allanol, a thacluso adnoddau pan ofynnir iddynt. Mae'r plant yn dangos parch at ei gilydd trwy gymryd eu tro i ddefnyddio'r beiciau a'r beiciau tair olwyn. Yn ystod amser byrbryd a chinio, mae'r plant yn mwynhau sgyrsiau gyda'r staff.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau archwilio'r wal ddŵr ac edrych ar drychfilod yn yr awyr agored. Mae’r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn tasgau a gweithgareddau wrth iddynt ddefnyddio setiau adeiladu mawr i adeiladu trên ac mae eraill yn dewis creu prydau a chacennau gyda'u hadnoddau cegin fwd.

Mae’r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth trwy chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn caneuon amser cylch ac adnabod synau, siapiau, hunan-gofrestru ac amser stori yn Gymraeg. Mae rhai plant yn cyfrif i ddeg ac mae’r plant yn mwynhau ymarfer synau, siapiau a lliwiau. Mae’r plant yn nôl llyfrau eu hunain i edrych ar luniau, gan droi'r tudalennau'n gywir. Yn ystod amser byrbryd, mae’r plant yn adnabod eu henwau ar y matiau bwrdd. Maent yn mynd â'u platiau a'u cwpanau yn

ôl i'r bowlen i'w golchi. Fodd bynnag, prin oedd y cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser  byrbryd.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol. Mae eu gweithdrefnau hylendid yn dda. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â newid cewynnau. Maent yn cwblhau'r holl lanhau ac asesiadau risg dyddiol yn ddyddiol. Mae'r staff yn diheintio byrddau cyn i'r plant fwyta eu bwydydd ac yn sicrhau eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol cyn paratoi byrbrydau i'r plant. Mae’r staff yn hyderus yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amddiffyn a diogelu plant pan gânt eu holi am sefyllfaoedd posibl. Cedwir cofnodion digwyddiadau a damweiniau yn gywir. Fodd bynnag, nid oedd gan rai ohonynt lofnodion naill ai’r rhieni neu’r staff. Mae anafiadau presennol yn cael eu cofnodi a'u llofnodi gan y rhieni a'u cadw'n ddiogel. Mae'r staff yn darparu dewisiadau maethlon o fwyd a diod i'r plant. Maent yn darparu ar gyfer anoddefiadau ac alergeddau’r plant yn ystod amser bwyd.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn fodelau rôl da. Maent yn dweud "*Diolch*” pan fydd y plant yn rhannu pizza gyda nhw yn ystod sefyllfaoedd chwarae rôl. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cadw rhai teganau o'r neilltu ar gyfer y plant y mae angen tynnu eu sylw oddi wrth rai sefyllfaoedd penodol. Mae’r staff yn canmol y plant yn briodol, er enghraifft am ddefnyddio ffynnon y wal ddŵr gan ddweud*“Waw, ardderchog!”*. Mae'r staff yn cael sgyrsiau hyfryd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd. Maent yn trafod lluniau a anfonwyd gan y rhieni i'r ap ar eu teithiau diweddar i'r sŵ a'r traeth. Mae’r plant yn teimlo balchder wrth drafod, ac ysgogodd hyn y plant i gymryd rhan mewn sgyrsiau hapus am eu teuluoedd.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ac anghenion unigol y plant yn effeithiol. Mae’r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo’n barhaus. Maent yn coladu syniadau’r plant ac yn gweithredu ar ddiddordebau’r plant. Mae ganddynt asesiadau ac arsylwadau ar waith  ac mae'r rhain yn eu tro yn llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol a'r ddarpariaeth ar gyfer targedau datblygiad y plant. Mae’r staff yn modelu sut i dynnu lluniau fel pryfed cop a siapiau yn ogystal â chreu modelau mawr yn yr ardal awyr agored i wneud trên mawr. Mae'r staff yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau ac amrywiaeth trwy ddathlu Eid, y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus trwy ganu caneuon, arwyddo ac ynganu synau llythrennau, amser cylch, trafodaethau a chwestiynau am storïau, lliwiau a siapiau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a sicr iawn i'r plant. Mae system ddiogelwch gadarn ar y safle lle mae'n rhaid i bobl sydd am gael mynediad i'r lleoliad ganu cloch drws a chael gwiriadau diogelwch i gael mynediad. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi wrth ddod i mewn i'r lleoliad. Mae asesiadau risg dyddiol a chyffredinol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae arferion glanhau ar waith ac fe'u llofnodir yn ddyddiol. Mae gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu diweddaru a rhannwyd y rhain ag AGC yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardaloedd addas a digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r toiledau yn darparu ar gyfer preifatrwydd ac urddas y plant ac mae sebon hylif a thywelion papur ar gael bob amser. Mae arddangosfeydd sy'n dangos geirfa Gymraeg a dathliad o waith y plant.

Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r cyfleoedd a roddir i'r plant yn cyfoethogi eu hannibyniaeth ac yn hyrwyddo eu hanghenion datblygiadol cyffredinol. Mae'r ardaloedd dan do yn darparu ardaloedd cyfoethog gydag adnoddau darllen, chwarae rôl, chwarae dŵr, TGCh, a chyfleoedd ar gyfer archwilio a chreadigedd. Mae'r ardal allanol yn darparu ystafell ddosbarth estynedig sy'n cyfoethogi dysgu'r plant gyda wal ddŵr, ardal i ddringo, darllen, chwarae adeiladu, datblygiad iaith ac ardaloedd synhwyraidd a garddio. Mae adnoddau sy'n hyrwyddo gwahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol. Maent yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac mae eu datganiad o ddiben yn adlewyrchu arferion cyfredol. Maent yn sefydlu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod y staff yn cael eu lleoli a'u trefnu'n dda i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni'n llawn a bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli eu staff yn dda ac mae ethos gwaith hapus a chyfeillgar rhwng y staff. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd ar gyfer y staff. Mae'r staff a'r myfyrwyr yn canmol eu cydweithwyr ac yn teimlo bod y lleoliad fel uned deuluol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhagweithiol wrth gadw i fyny â'r arferion gorau cyfredol, gan gynnwys bodloni gofynion canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Mae'r holl staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llwyddiannus o ran cadw cofnodion yn gyfredol. Maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a sefydliadau proffesiynol eraill mewn modd proffesiynol ac amserol.

Mae hunanwerthuso yn bwrpasol ac effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried barn y rhieni, y staff, y plant a gweithwyr proffesiynol eraill i greu eu hadolygiad ansawdd gofal blynyddol ac i osod targedau a nodau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol yn effeithiol. Maent yn cyflawni gwiriadau addasrwydd recriwtio amserol a chadarn ar gyfer y staff. Maent yn sicrhau bod gwiriadau datgeliad troseddol a gwahardd y staff yn cael eu hadnewyddu. Cynhelir proses sefydlu drylwyr.

Mae partneriaethau yn dda iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu â'r rhieni mewn modd effeithiol iawn. Maent yn rhannu polisïau a gweithdrefnau â rhieni, yn ogystal â lluniau, fideos, cynnydd plant a thargedau trwy lwyfan gwe diogel. Mae'r rhieni yn teimlo bod y lleoliad yn darparu gwasanaeth 'gwych'. Maent yn teimlo bod eu plant yn rhagori ar eu disgwyliadau ers mynychu ac mae eu plant yn hapus iawn â staff cyfeillgar y lleoliad sy'n amyneddgar a chymwynasgar.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Gwella sgiliau annibyniaeth plant amser byrbryd.

A2. Sicrhau bod y rhieni a'r staff yn llofnodi'r cofnodion digwyddiadau a damweiniau.

**Comment [MH1]:** Formatting may require attention. In some views R1 appears to be duplicated in the English version.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | yn yr arolygiad hwn. | |

| Graddau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/07/2022